

MYRDDIN

Of Merlin and his skill what Region doth not heare
The world shall still be full of Merlin everie where.
A thousand lingering yeares his prophecies have runne,
And scarcely shall have end till time itself be done.

Michael Drayton, Poly-olbion, Song V.

Yn 1622, fe ragfyneodd y bardd enwog o Sais, Michael Drayton, y byddai enwogrwydd Myrddin yn para hyd ddiwedd amser. Bedair canrif yn ddiweddarach, nid yw'n ymddangos bod seren Myrddin yn mynd yn llai disglair. Mae wedi bod yn destun llyfrau, nofelau, dramâu, astudiaethau academaidd, gwefannau, ffilmiau, nifer o gyfresi teledu a gwaith celf. Mae'n ymddangos fel petai pob cenhedlaeth yn ail-ddarganfod Myrddin a bod y ffigwr dirgel hwn yn ein gorffennol pell yn dal i gipio'n dychymyg.

Efallai mai fel cynghorwr i'r Brenin Arthur a dewin yn y chwedlau Arthuraidd y mae Myrddin yn fwyaf enwog. Sieffre o Fynwy, yr awdur o'r ddeuddegfed ganrif, sy'n rhoi'r darlun cyntaf o Fyrddin fel y mae'n cael ei bortreadu heddiw i ni, a hynny yn Historia Regum Britanniae a ysgrifennwyd yn 1136. Fodd bynnag, roedd Sieffre yn defnyddio ffynonellau llawer hŷn. Cyfunodd storïau am Fyrddin Wylt (Merlinus Caledonis), dyn gwyllt o'r coed heb unrhyw gysylltiad o gwbl ag Arthur gyda storïau am yr arweinydd rhyfel Brythonig-Rufeinig hanesyddol Ambrosius Aurelianus er mwyn creu ffigwr a enwodd ef yn Merlin Ambrosius.

Mae'n ymddangos bod storïau am Myrddin yn gyffredin iawn yn y gwledydd Celtaidd ac ar y cyfandir yn ystod yr Oesoedd Tywyll ac iddynt gyrraedd anterth eu poblogrwydd yn y cyfnod Canoloesol. O ganlyniad, mae nifer o lefydd yn hawlio cysylltiad gyda'i fywyd mewn rhyw ffordd.

Mae fersiwn Cymru o'r chwedl – sydd wedi'i seilio ar gymeriad dyn gwyllt o'r coed Myrddin Wylt – yn dweud i Fyrddin, wedi iddo gael ei drechu ym Mrwydr Arfderydd ger Caerliwelydd yn 573, fynd o'i go'. Cillodd i Goed Celyddon yn ne'r Alban lle roedd pobl yn siarad Cymraeg ar y pryd. Yno bu'n byw fel dyn gwyllt gyda dim ond anifeiliaid y goedwig a phorchell yn gwmni. O ganlyniad i'w brofiadau yn ystod ei arhosiad yn y coed, daeth Myrddin yn broffwyd. Ysgrifennwyd nifer o'r proffwydoliaethau hyn mewn ffurf farddonol yn ystod y nawfed ganrif, yn ôl y sôn gan Fyrddin ei hun, ac mae casgliad ohonynt wedi'u cofnodi yn y llawysgrif o'r drydedd ganrif ar ddeg Llyfr Du Caerfyrddin.

Nid yw'n syndod felly bod nifer o'r straeon am Fyrddin wedi eu lleoli yng Nghaerfyrddin. Hefyd, mae'n glir bod Myrddin yn adnabyddus fel bardd a phroffwyd yng Nghymru mor gynnar â'r ddegfed ganrif gan bod cyfeiriad ato i'w gael yn y gerdd broffwydol Armes Prydain sy'n ffurfio rhan o Lyfr Taliesin. Cyfansoddwyd y gerdd hon gan gefnogwr i linach Deheubarth yn ne-orllewin Cymru. Mae ysgolheigion modern yn credu bod posibilrwydd mai eglwyswr oedd yr ysgrifennwr er ei bod yn cael ei cham-dadogi ar Taliesin. Felly, mae'n amlwg i'r cysylltiad rhwng Myrddin a

thref Caerfyrddin gael ei wneud o leiaf mor fuan â phan gyfansoddwyd Armes Prydain – o leiaf ddwy ganrif cyn Llyfr Du Caerfyrddin.

Yn olaf, mae'r nifer enfawr o safleoedd ac enwau lleoedd yn yr ardal gan gynnwys ei goeden dderw, bryn ac ogof, cerrig a siambrau claddu yn awgrymu cysylltiad pendant.

Myrddin Yn Deffro

Gwrtheyrn oedd Brenin y Brythoniaid yn ystod y bumed ganrif. Roedd yn gyfnod o newid mawr. Nid oedd pobl Prydain wedi dioddef ymosodiad o'r tu allan ers goresgyniad y Rhufeiniaid ac roedd hynny bellach yn hen hanes. Ond nawr roedd bygythiad arall – y Sacsoniaid.

Roedd Gwrtheyrn yn anfwriadol wedi talu arglwyddi rhyfel Sacsonaidd fel milwyr tâl i ymladd yn erbyn Pictiaid afreolus y gogledd. Gwrthryfelodd y Sacsoniaid gan sefydlu eu teyrnasau eu hunain. Yn raddol, daeth lluoedd y Sacsoniaid i reoli llawer o'r lle rydym yn ei adnabod fel Lloegr heddiw gawn orfodi'r Brythoniaid brodorol i gilio i rannau gorllewinol a gogleddol yr ynys: i'r Alban, Cymru a Chernyw. Mae cerdd Gymraeg o'r chweched ganrif o'r enw Y Gododdin yn adrodd hanes y frwydr olaf am dir Brythonig Gododdin rhwng lluoedd y Brythoniaid a'r Eingl-Sacsoniaid. Ynddi, mae'r bardd Aneurin yn disgrifio ffawd y fyddin Frythonig:

O drychant rhiallu yd grysiasant Gatraeth,
Tru, namyn un gŵr nid atgorsant.

O'r fyddin frenhinol o dri chant o ddynion a frysiodd i Gatraeth, Och! Ni ddychwelodd dim ond un.

Apeliodd Gwrtheyrn ar ei gynghorwyr derwyddol am arweiniad. Dywedwyd wrtho y dylai gilio i fynyddoedd Cymru a dod o hyd i le addas i adeiladu cadarnle lle y gallai reoli a chynllunio'i wrthymosodiadau. Wedi chwilio'n hir a chaled, daeth Gwrtheyrn at odre'r Wyddfa, y mynydd uchaf yn ei dir. Dewisodd fryn serth gyda chopa gwastad ger yr afon Glaslyn a dechreuodd ei ddynion ar eu gwaith ac adeiladu muriau mawr a fyddai'n amddiffyn Gwrtheyrn a'i lys.

Ddydd ar ôl dydd roedden nhw'n gweithio yng ngwres diwedd haf er mwyn palu'r sylfeini ac adeiladu'r muriau, ond ni wnaed unrhyw gynnydd. Bob nos bydda'r cerrig yn cael eu dymchwel a bob bore byddai'n rhaid i'r gweithwyr gychwyn o'r cychwyn. Ar ôl rhai wythnosau, galwodd Gwrtheyrn gyngor o'i dderwyddon. Gofynnodd iddynt ddarganfod pam na allent adeiladu ar y bryn a pha hud a llefrith fyddai'n gwrthsefyll pa bynnag rymoedd maleisus oedd yn dinistrio'r muriau yn ystod y nod. Cynghorwyd Gwrtheyrn i ddod o hyd i fachgen heb dad meidrol. Pe aberthwyd y bachgen hwn a thywallt ei waed ar ben y bryn, yna byddai ysbrydion helbulus y lle'n cael eu tawelu a gallai'r gwaith fynd yn ei flaen heb anhawster.

Gyrrodd Gwrtheyrn ddynion i bob cornel o'r deyrnas i ddod o hyd i'r fath fachgen. Wedi rhai misoedd o chwilio ofer, daeth rhai o'r dynion i hen dref Rufeinig Moridunum, sef Caerfyrddin heddiw. Yno, yn agos at yr hen amffitheatr Rufeinig, o dan ganghennau coeden dderwen, daethant ar draws criw o fechgyn ifanc. Roedd un o'r bechgyn hyn yn cael ei wawdio gan ddau arall am nad oedd ganddo dad. Cododd hyn chwilfrydedd y milwyr a dyma nhw'n torri ar draws ffrae'r bechgyn. Emrys oedd enw'r bachgen ac wedi i'r milwyr holi am ei fam, aeth a nhw i'w chyfarfod. Roedd hi'n dywysoges yn y rhanbarth oedd bellach yn byw fel lleian yn y Priordy yng Nghaerfyrddin. Eglurodd iddi gael ymweliad un noson gan ysbryd euraid ac mai drwy'r ymweliad hwnnw yr oedd ei mab wedi'i genhedlu.

Aeth y milwyr ag Emrys yn ôl i'r gogledd gyda nhw ac ar doriad gwawr ar fore oer yn nyfnder gaeaf, cafodd ei arwain gan dderwyddon Gwrtheyrn i gopa'r bryn. Wrth sylweddoli beth oedd ei dynged, cyhoeddodd na fyddai ei ladd a thywallt ei waed yn gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl. Ond, dywedodd ei fod yn gwybod beth oedd yn achosi i'r muriau ddisgyn bob nos:

“O dan y bryn hwn, mae yna llyn, ac o dan y llyn, mae yna garreg. O dan y garreg honno mae yna ogof ddofn gyda dwy siambr. Ym mhob siambr mae yna ddraig yn cysgu. Wrth i chi adeiladu'r muriau yn ystod y dydd, mae'r pwysau yn gwasgu i lawr ar gefnau'r dreigiau felly yn y nos, pan maen nhw'n deffro, mae'n nhw'n ysgwyd y tir ac mae'r muriau'n disgyn.”

Pan ofynnwyd iddo beth y dylid ei wneud fel y gellid adeiladu'r gaer yn llwyddiannus, cynghorodd Emrys y dylid draenio'r llyn tanddaearol a chloddio'r capfaen o dano er mwyn datgelu'r ceudwll. Aeth dynion Gwrtheyrn at eu gwaith yn syth a dod o hyd i bopeth a ddisgrifiodd Emrys. Buont yn gweithio drwy'r dydd tan iddynt allu symud y capfaen er mwyn datgelu'r ceudwll tywyll, dwfn yng nghalon y bryn.

Y noson honno, arhosodd Gwrtheyrn a'i dderwyddon a'i ryfelwyr gyda Emrys ar wylidwraeth. Yn union fel y proffwydodd Emrys, wrth i'r pelydrau olaf o olau adael yr awyr, deffrodd y ddwy ddraig – un wen ac un goch. Am nifer o oriau y noson honno, fe ymladdodd y ddwy ddraig yn ffyrnig. Ar un pwynt roedd y ddraig goch yn ymddangos yn wan ac yn anabl i wrthsefyll ymosodiad diflino'r ddraig wen, ond yn y diwedd, fe yrrodd y ddraig goch y ddraig wen allan o'r ogof. Dihangodd drwy'r agoriad a hedfan tuag at y de.

“Beth mae hyn yn ei feddwl?” gofynnodd Gwrtheyrn i'w gynghorwyr. Emrys oedd yr unig un a allai roi ateb iddo.

“Syr”, meddai, “Mae'r ddraig goch yn cynrychioli pobl Frythonig y tir hwn ac mae'r ddraig wen yn cynrychioli'r Sacsoniaid. Mae hyn yn arwydd y bydd pobl frodorol yr ynys hon yn llwyddo i wrthsefyll y Sacsoniaid yn y diwedd.”

Hyd y dydd heddiw, Dinas Emrys yw enw'r bryn. Ond beth yw cysylltiad Myrddin â hyn? Wedi iddynt ryfeddu at broffwydoliaeth y bachgen, rhoddodd y derwyddon enw newydd i Emrys – enw a roddid i'r beirdd a'r gweledyddion doethaf a mwyaf goleuedig. Cafodd ei enwi'n Myrddin.

Parhaodd y ddraig wen ar ei thaith drwy berfeddwlad Cymru tua'r de tan iddi ddod, yn y diwedd, at y môr. Yn ôl y chwedl, fel iddi ddynesu at yr arfordir lle mae Penrhyn Gŵyr heddiw, cododd yr haul a throwyd y ddraig yn garreg. Hyd y dydd heddiw gelwir pentir Gwyr yn 'Worm's Head'. Gair Engl Sacsonaidd yw 'Worm' oedd yn golygu 'draig'. O arfordir de Sir Gâr, gellid gweld y ddraig yn ymlwybro i'r mor – pen, gwddwg a chynffon.

Cafodd y ddraig goch fwy o lwc. Cymrodd ei lle ar faner Cymru fel symbol o warcheidwad dros y wlad. Daeth proffwydoliaeth gyntaf Myrddin yn wir; ni choncrwyd y Cymry gan yr Eingl-Sacsoniaid. Tra bu i frenhinoedd Normanaidd a Seisnig hawlio rheolaeth ar y genedl, ni chafodd ei choncro erioed. Heddiw, mae'r Ddraig Goch, fel yr adnabyddir y faner, yn hedfan yn falch tu allan i'r Cynulliad yng Nghaerdydd – senedd Cymru.